Pris: 50c

# Papur Pawb

Mai 2024 Rhif 499



tud 4 ac 8 Teyrngedau
tud 6 - 7 Ysgol Tal-y-bont
tud 9 Tîm Talwrn Tal-y-bont
tud 12 Chwaraeon

## CODI WYTH CAN PUNT MEWN BORE



Codwyd y swm anhygoel o £800 mewn Sêl Planhigion hynod o lwyddiannus yn Neuadd Goffa Tal-y-bont fore Sadwrn 4 Mai wrth i Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ddal ati gyda'u hymdrechion i godi arian ar gyfer y Cae Bach. Roedd y stondinau yn werth eu gweld a phawb yn gadael gyda phlanhigion o safon, diolch i ymdrechion y pwyllgor a'u cefnogwyr.

## Cist Cofio 50/500

Mae 'na lawer o drugareddau (teganau, dillad, addurniadau, technoleg, llyfrau ayyb sy'n gysylltiedig â chyfnodau penodol ers sefydlu Papur Pawb.

Os oes gennych eitem oedd yn nodweddiadol o'r 1970au, 1980au, 1990au, 2000au, 2010au neu 2020au allai fod o ddiddordeb i'r cenedlaethau a ddaw ac yr ydych yn fodlon gyfrannu i'r casgliad, dewch â nhw i'r Neuadd Goffa ar y diwrnod dathlu. Gan fod gofod cyfyngedig yn y gist, ceisiwch gyfyngu eich hunain i ystyried eitemau cymharol fychan os gwelwch yn dda.

Byddwn yn tynnu lluniau o bob eitem ac wedyn yn eu pacio yn ofalus – gyda label yn nodi unrhyw fanylion disgrifiadol, gan gynnwys enw'r cyfrannwr. Cyhoeddir rhestr o'r cyfraniadau yn Papur Pawb. Caiff y gist ei selio a'i chadw mewn man diogel – gyda label clir arni yn nodi ei phwrpas.

## Papur Pawb 50/500

I nodi cyhoeddi rhifyn 500 Papur Pawb ym mis Mehefin a hynny 50 mlynedd ers i'r rhifyn cyntaf ymddangos yn 1974 bydd dathliad arbennig yn cael ei drefnu yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Mae croeso i bawb sy'n cefnogi'r Papur fynychu'r digwyddiad a gynhelir brynhawn Sul 16 Mehefin am 3.00 o'r gloch. Darperir lluniaeth ysgafn a chacen pen-blwydd yn ogystal ag adloniant ac arddangosfa o hen luniau a hen rifynnau. Cawn wrando ar blant Ysgol Tal-y-bont yn ein diddanu cyn cyd-ganu cân y dathlu.

Pan sefydlwyd y Papur yn 1974 dyma oedd y 'Papur Bro' cyntaf, a diolch i ymdrechion llu o wirfoddolwyr ar hyd y degawdau mae'r Papur nid yn unig wedi goroesi ond wedi ffynnu. Dyma'n cyfle felly i ddiolch i'r sylfaenwyr am eu gweledigaeth ac i godi gwydryn bach i ddymuno'n dda i'r criw sydd wrthi'n ddyfal ar hyn o bryd yn sicrhau fod y Papur yn ymddangos yn fisol.

Bydd rhifyn Mehefin yn cynnwys atodiad difyr yn olrhain holl hanes y gorffennol, ac fel arwydd o'n diolch i'n holl ddarllenwyr bydd pob copi ar gael yn rhad ac am ddim.

Bwriedir hefyd dynnu llun o holl staff y Papur ar hyd y blynyddoedd, brynhawn Sul 9 Mehefin am 5.00 o'r gloch ar iard yr Ysgol. Mae gwahoddiad i bob cyfrannwr, gohebydd, golygydd, swyddog ag ati i fod yn bresennol er mwyn i ni gael cofnod o'r holl unigolion a gyfrannodd at lwyddiant y Papur ers y dechrau.

**Dathlu pen-blwydd 50 Papur Pawb**

**Cist 50/500**



**A fedrwch gyfrannu eitem/au diddorol o'r cyfnod ers 1974 i'w rhoi yn y gist?**

**Dewch â nhw i'r parti dathlu am 3 o'r gloch ar Mehefin 16eg**

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysylltwch â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**[illegible]:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd Williams
**cat_y_foel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Harlan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwysfach/Ffwrnais:**
Lona Mason
[illegible]@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Carl Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
[illegible] Davies, [illegible], Tal-y-bont
**832687**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, [illegible]
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, [illegible], Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, [illegible], Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 934 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Carl Jones, Siôn Pennant

**Casglu'r Papur:**
Gwenllian ac Arwel Parry Jones

**Dosbarthwyr:**
Gwenllian Parry Jones, Carys Briddon,
John Evans, Ynys Hir

Cyhoeddwyd gan:
Cymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

**www.papurpawb.cymru**



## Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion

Cwmni Drama Licris Olsorts
yn cyflwyno

'Apocalyps' - Emyr Edwards

'Yng Nghesail y Cwm' - Sion Pennant

a pherfformiadau gan artistiaid lleol eraill

**Neuadd Rhydypennau**
**14 Mai 2024 am 7:30**
**Tâl Mynediad £5**
**(wrth y drws)**


### GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Megan a Phil, gyda Siôn Pennant yn dylunio. Diolch iddynt.

Golygyddion rhifyn Mehefin – y 500 fed rhifyn – fydd Rhian a Shân (rhian.nelmes@ btinternet.com) Y dyddiad cau yw 7 Mehefin a bydd y papur yn y siopau ar 14 Mehefin.





**James Memorials**

**Am**
**GOFEBAU ARBENNIG**
**BEDDARGRAFFIADAU**
**ADNEWYDDU O SAFON**
**ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111


# DYDDIADUR

### MAI

**12** **Bethel** 10 Raymond Davies (C)

**Bethesda Tynant** 2 (Gohiriwyd)

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid

**12-18** Wythnos Cymorth Cristnogol

**14** **Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion**, Neuadd Rhydypennau, Bowstreet

**19** **Bethel** 10 Uno â Seion, Delyth Morgans Phillips

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**Gŵyl y Peillwyr** 10–4 Cletwr

**20** **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 7.30 Gillian Olewicz

**22** **Bore Coffi** 10.30–12 Neuadd Llanfach

**23** **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol

**24** **Noson Bingo, Cronfa Cae Bach** 7.30 Neuadd Goffa Tal-y-bont

**26** **Bethel** 10 Geraint Evans

**Rehoboth** 5 Bugail

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**29** **Noson gyda Cairi Jacks a chyfeillion** 7 Neuadd Llanfach

**30** **Sioe'r Cardis – Digwyddiad Glaswellt a Thail Cynaliadwy CAFC** 10–5 Fferm Prifysgol Aberystwyth Trawsgoed, ac adloniant gyda'r nos

### MEHEFIN

**2** **Bethel** 10 Uno â Seion, John Treharne

**Rehoboth** 2 Bugail

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

9 **Bethel** 10 Rhidian Griffiths (C)

**Bethesda Tynant** 2 dan ofal yr Ysgol Sul

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid

**BOB WYTHNOS**

**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

Cletwr

Caru Gwenyn
Bee Friendly

## Gŵyl y Peillwyr

**Dydd Sul 19.05.24**

**10.00 – 16.00**

**Mynediad am ddim**

*Dewch i ymuno â'r bwrlwm*



| | |
|---|---|
| 10.00 | Magl wyfynod |
| 10.00 – 12.00 | Coed ffrwythau treftadaeth ar werth gyda Merched y Berllan |
| 11.30 a 14.30 | Troeon cacwn |



**Drwy'r dydd**

Stondin yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn



Twba lwcus

Stondin blanhigion i beillwyr



Paentio cerrig

Lliwio cardiau pryfed

Gwneud potiau planhigion o bapur

**Cletwr, Tre'r Ddôl, Ceredigion**
**SY20 8PN**
**01970 832 113**
**cletwr@cletwr.com**

# Pobl a Phethe








## Deunaw Oed

Llongyfarchiadau i Catrin Jones, Ynystudur a Thérèse Woodling, Maesyllan ar ddathlu eu pen-blwyddi yn 18 oed ym mis Ebrill. Mae'r ddwy yn ffrindiau mynwesol ers eu dyddiau yn yr Ysgol Feithrin ac yna yn Ysgol Tal-y-bont, fel mae'r lluniau yma yn ei ddangos. Dyma hysbyseb wych am addysg leol!

### Licris Olsorts

Llongyfarchiadau i Gwmni Drama Licris Olsorts a ddaeth i'r brig yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon a gynhaliwyd ar y 25ain a'r 26ain Ebrill. Fe gipiodd y cwmni dlws coffa Dr John Gwilym Jones am actio drama fonolog 'Yng Nghesail y Cwm' gan Sion Pennant sy'n ymdrin â nifer o bynciau cyfoes sy'n effeithio bywyd yng nghefn gwlad Cymru. Yn ogystal, derbyniodd Gwenllian King dlws yn rhoddedig gan gwmni Inigo Jones am y perfformiad unigol gorau am ei phortread o Gweno yn y ddrama. Fe gaiff darllenwyr Papur Pawb gyfle i weld y ddrama hon yn ogystal â pherfformiad y cwmni o 'Apocalyps' gan y diweddar Emyr Edwards pan fydd Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn ymweld â Neuadd Rhydypennau nos Fawrth, 14eg Mai am 7:30.

### Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Tomos Benjamin Cysgod y Crib, Tal-y-bont ar basio ei brawf gyrru ym mis Ebrill. Bydd dim dal nôl arnat ti nawr.

## Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion

Ysgol Sul Bethel oedd yn gyfrifol am ddarnau agoriadol Cymanfa Ganu'r Plant fore Sul 28 Ebrill wrth i Gapeli Unedig Gogledd Ceredigion gyfarfod yn Nhal-y-bont ar gyfer dwy oedfa. Arweinydd y bore oedd Helen Medi Williams gyda Delyth Hopkins Evans yn arwain cymanfa'r oedolion yn yr hwyr. Pleser oedd gwrando ar deulu Hector Macdonald o Batagonia yn oedfa'r bore wrth iddynt gyflwyno dwy eitem swynol. Llywydd y diwrnod oedd y Parchedig Watcyn James a'r cyfeilydd oedd Falyri Jenkins. Cynhelir Cymanfa Ganu y flwyddyn nesaf yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth ar 18 Mai 2025. Casglwyd dros £250 yn ystod oedfa'r plant ar gyfer achosion dyngarol yn Wcrain.



### Croeso i Dal-y-bont

Croeso i Eileen Stephens sydd wedi ymgartrefu yn y Pandy, Tal-y-bont. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd.

### Ymddeol

Ymddeoliad hapus i Christine Evans, Bryn Eleri. Mae'n siwr dy fod yn edrych ymlaen i fwynhau mwy o gwmni John a cherdded llwybrau'r fro.

### Brysiwch wella

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mair Jenkins, Ynyseidiol sydd ddim wedi bod yn hwylus iawn yn ddiweddar.

### Yn yr Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Siwan Haf Evans, Pantcoch, Tal-y-bont a Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont, y ddau yn Ysbyty Bronglais wrth i'r Papur fynd i'r wasg.

### Clwb Cant Neuadd Llanfach

**Enillwyr mis Ebrill:**

1. Keith Fogg, Rhif 85
2. Christine Beale, Rhif 20
3. Peter Nicholls, Rhif 48




# Gwynfor Y Garej

*Diolch i Nicola Dunkley am gael cynnwys rhannau o'i theyrnged hyfryd i Gwynfor a draddodwyd yn ei angladd.*

Ganed Gwynfor Davies yn 1943 yn Penygroes, Sir Gaerfyrddin. Roedd yn casáu'r ysgol ac roedd yn well ganddo o lawer fynd allan i ffereta! Treuliai pob gwyliau ysgol gyda'i fodryb a'i ewythr annwyl, Nurse a Dei Pryse Morgan yn Nhal-y-bont ac yn 15 oed symudodd atynt yn barhaol gan i'w dad ddioddef salwch difrifol o ganlyniad i'w waith fel glöwr. Cyn bo hir yr oedd yn gweithio'n ddiwyd gyda'i wncwl yn y garej y byddai'n berchen arni maes o law sef Davmor. Er nad oedd yn or hoff o geir ar y dechrau fe ddaeth yn fecanic gan gymryd cyfrifoldeb am waith trwsio ac achub ceir 24awr y dydd.



Yn 18 oed newidiodd ei fywyd wrth iddo wahodd merch o Gapel Bangor, Jennifer Ann Jones, merch oedd yn wreiddiol o'r Barri, i fynd gydag ef i'r pictiwrs. Yn dilyn chwe mlynedd o ganlyn tymhestlog fe wnaeth y ddau ddyweddïo gan briodi maes o law ym mis Mai 1968. Pan ddathlodd Gwyn ei ben-blwydd yn 40 oed cyflwynodd Jen lyfr This is Your Life iddo ac yn y llyfr ceir lluniau o bâr ifanc smart iawn ar ddydd eu priodas, gan gynnwys coesau hardd Jen yr oedd Gwyn yn eu hedmygu cymaint!

Penderfynodd Gwyn fynd ati i adeiladu cartref i'r teulu, a gyda help llawer o ffrindiau da, codwyd byngalo iddo ef a Jen, sef Erw Lon. Yno yr oedd yn gwneud gwaith trwsio cyrff ceir ar y dechrau, weithiau hyd at oriau mân y bore gyda'i gyd weithiwr ffyddlon Bill James. Mae'n rhaid ei fod wedi cyrraedd y gwely bob hyn a hyn gan i Nia gyrraedd yn 1971 a Ceri yn 1976 ac yr oedd mor falch o'r ddwy ohonynt. Cafodd foddhad mawr pan ddaeth Nia yn rhan o'r busnes ac ymfalchïai hefyd yn llwyddiant Ceri wrth iddi ddilyn gyrfa fel nyrs. Daeth llawenydd pellach i'w fywyd pan aned ei wyres Megan i Ceri ac Ian a chafodd bleser mawr yn treulio amser yn ei chwmni ar ôl ymddeol.

Mae Jen, Nia a Ceri yn cofio am Gwyn fel gweithiwr di-flino ar gael bob awr o'r dydd, hyd yn oed ar ddydd Nadolig os oedd rhywun allan o betrol neu wedi torri lawr. Er iddynt brynu carafán yng Ngheinewydd dim ond rhyw 10 noson y treuliodd |Gwyn ynddi yn ystod y 13 mlynedd y bu'r garafán yn eu meddiant. Credai mewn gweithio hyd eithaf ei allu ac i gynnig gwasanaeth heb ei ail i'w gwsmeriaid a'i gymuned, gan ymdrechu i gynnal busnes llwyddiannus a dalai cyflog rheolaidd i'w weithwyr ac a roddai cynhaliaeth i'w deulu.

Yn y dyddiau cynnar yr oedd Gwyn yn aelod o Bwyllgor Adloniant y pentref, a bu'n weithgar iawn gyda'r criw a oedd yn gyfrifol am godi'r estyniad a'r ystafell snwcer yn y Neuadd Goffa. Byddai'n cau'r garej ar gyfer pob carnifal, a bob amser yn barod ei gymwynas i'w gymuned.

Ar ôl treulio 55 mlynedd yn gweithio yn Davmor daeth y diwrnod i ymddeol ac mae'n debyg i Gwyn gyrraedd adref y diwrnod olaf a llefen y glaw. Yn fuan, fodd bynnag daeth i fwynhau bywyd adref yn enwedig wrth wylio ei hoff ffilmiau a rhaglenni teledu megis Pretty Woman, Legally Blond, Mama Mia a Hearbeat. (Cerddoriaeth agoriadol Hearbeat a chwaraewyd ar ddechrau ei angladd.)

Prynodd y teulu fflat yng Nghaerdydd er mwyn medru treulio mwy o amser yng nghwmni Megan. Prawf o'i ymlyniad i'w deulu oedd y ffaith iddo annog mam Jen i ddod atynt i fyw. Bydd llawer yn cofio Gwyn yn rhedeg o gwmpas y garej gyda ffag yn ei law, ond rhoddodd y gorau iddi'n llwyr pan sylweddolodd fod pensiwn Jen bron i gyd yn cael ei wario ar sigaréts. Arwydd o'i ddycnwch oedd iddo beidio ysmygu o gwbl ar ôl penderfynu rhoi'r gorau iddi.

Treuliodd Gwyn ymddeoliad dedwydd yn gwylio'r teledu a mwynhau gofal Jen. Er ei fod yn dioddef o glefyd y siwgr roedd yn aml i'w weld yn chwilio am rhywbeth melys i'w fwyta yn y gegin! Roedd yn hapus yn cael ei gludo o fan i fan gan Jen ac fe gadwodd ei natur ffein tan y diwedd. Mae'n destun balchder i Jen na chlywodd neb yn dweud gair drwg amdano. Roedd yn falch iawn o'i ferched Nia a Ceri, o redeg ei fusnes ei hun, o Megan ei wyres, o Jen (a'i choesau hyfryd!) ac o fod yn Gymro.

Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled a diolchwn am fywyd un a gyfrannodd cymaint i'w gymuned.

PhD

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Nos Lun 29 Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ariannol newydd. Ymhlith yr eitemau ar yr agenda yr oedd cyflwr y ffyrdd yn yr ardal. Rydym yn rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am unrhyw broblemau – ac maen nhw'n llwyddo i lenwi'r tyllau bob hyn a hyn. Mae'r Cyngor Cymuned bellach wedi mabwysiadu'r ciosg yng Nghwm Eleri, a'r bwriad yw gosod deffibriliwr ynddo at ddefnydd y trigolion lleol. Rydym yn gobeithio cynnal cwrs Cymorth Cyntaf yn fuan, a fydd yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar, felly cadwch olwg am ragor o fanylion.

Er nad yw data'r Ymddiriedolaeth Afonydd ar Afon Leri ac Afon Ceulan yn gwbl ddibynadwy, mae Grŵp Llifogwyr Tal-y-bont wedi bod yn cynnal profion wythnosol ers rhai misoedd, ac yn gallu cadarnhau bod ansawdd y dŵr yn dda iawn a bod lefel y cemegion ynddyn nhw yn isel iawn.

Bydd nifer ohonoch wedi sylwi ar y llwybr troed newydd sy'n mynd o Dal-y-bont i Erglodd. Bydd y gwaith arno'n cael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf; bydd wyneb priodol yn cael ei roi ar y darn sy'n rhedeg trwy'r fynwent, a phlanhigion yn cael eu hail-blannu yn y sietyn sy'n ffinio â'r ffordd fawr er mwyn cau unrhyw fylchau. Bydd mesh yn cael ei osod ar wyneb gweddill y llwybr i adael i laswellt dyfu trwyddo. Bydd canllawiau newydd yn cael eu gosod yn y fynwent hefyd, un o'r gât fach i lawr at y gwaelod, ac un o'r gât fawr i lawr at y canol.

Cynhaliwyd sêl planhigion yn y Neuadd Goffa ddydd Sadwrn 4 Mai i godi arian ar gyfer Cronfa Cae Bach. Llwyddwyd i wneud elw o dros £800, felly diolch o galon i bawb a gyfrannodd blanhigion ac eitemau i'w gwerthu, ac i bawb a fu yno'n rhoi help llaw; a diolch unwaith eto i drigolion hael ardal Ceulanamaesmawr am dyrru yno i gefnogi. Cynhelir Noson Bingo arall ar 24 Mai – rydyn ni'n ddiolchgar iawn i deulu Wainwrights am noddi'r noson ac am eu rhodd hael i'r gronfa. Cewch ragor o fanylion maes o law.

Mae'r ymgynghori wedi dechrau i ddewis beth yn union fydd yn cael ei roi yn y Cae Bach ar ei newydd wedd. Cafodd Catrin ac Elan amser difyr iawn yn siarad â phlant yr ysgol ganol mis Ebrill, a chafwyd nifer o syniadau ac awgrymiadau da iawn ganddyn nhw.

LRJ




# PORTREAD O ARVID



*Y ffotograffydd adnabyddus Arvid Parry Jones, Tal-y-bont oedd y siaradwr mewn noson ddifyr iawn o Gylch Cinio Aberystwyth ym mis Ebrill. Hefyd yn y llun mae Gwynfryn Evans a Vaughan Griffiths, Cadeirydd.*

## Colofn Cletwr Mai 2024

*Nawr lanciau, rhoddwn glod, y mae'r gwanwyn wedi dod,*
*Y gaeaf a'r oerni aeth heibio. Daw y coed i wisgo'u dail,*
*A mwyniant mwyn yr haul, a'r ŵyn ar y dolydd i brancio*

*Cytgan: Moliannwn oll yn llon, mae amser gwell i ddyfod,*
*Haleliwia*
*Ac ar ôl y tywydd drwg, fe wnawn arian fel y mwg*
*Mae arwyddion dymunol o'n blaenau.*

"Y gaeaf a'r oerni aeth heibio"? Sgersli bilîf. Ond gobeithio bydd Cletwr yn gwneud arian fel y mwg dros y misoedd o 'haf' i ddod. Cawsom Basg prysur a llwyddiannus, a diolch i'r staff a'r gwirfoddolwyr i gyd a weithiodd mor galed, ac a fydd yn gweithio fel hyn tan fis Medi.

Peth cyntaf y mis 'ma: gwirfoddoli. Mae criw mawr o wirfoddolwyr yn gweithio yn Cletwr, ac yn cael hwyl ac yn helpu'r gymuned. Mae'r mwyafrif ohonyn nhw yn gweithio yn y siop, y caffi a'r ardd, ac mae eu gwaith nhw yn werthfawr iawn. Ond rydym yn chwilio am berson neu ddwy i helpu gyda thasgau yn y swyddfa, gan helpu Chloe gyda'r gwaith papur a chyfrifiadur - ychwanegu data i Quickbooks ayyb. Felly os oes gennych ychydig awr sbâr i gyfrannu bob wythnos, a diddordeb a sgiliau yn y fath waith (er darparir hyfforddiant), cysylltwch â'r Swyddfa.

Beth sy'n digwydd yn y dyfodol agos? Heb os, uchafbwynt mis Mai bydd Gŵyl y Peillwyr a drefnir gan ein grŵp garddio ar ddydd Sul 19eg. Diwrnod llawn digwyddiadau - stondinau, pethau i'r plant (ac i bawb). Dewch yn llu.

Mae llawer yn cofio'r cyngerdd bendigedig gan Sinfonia Cymru dwy flynedd yn ôl. Wel, maen nhw'n dod eto gyda thriawd o Delyn, Ffliwt a Cello: 14eg o Fehefin. Mynediad am ddim! Felly bwciwch eich tocynnau nawr. Manylion ar Facebook.

Oes cyfrif Cletwr gennych? Cofiwch eich bod chi'n cael disgownt o 10% yn y caffi os ydych chi'n talu ar eich cyfrif. A nawr, cewch ddod i mewn a joio popeth ar fwydlen y caffi saith diwrnod yr wythnos, gan fod y cegin ar agor pob diwrnod tan diwedd yr haf. Mae prydau arbennig a gwahanol (a blasus) ar gael bob diwrnod, ac wrth gwrs ein bwydlen arferol, te, coffi ac ysgytlaethau Jenkins, a theisennau gartref i ddenu dŵr o'r dannedd!

Mwynhewch "*fwyniant mwyn yr haul*" — os daw!

NC

### Cymdeithas Y Chwiorydd Rehoboth



Cyfarfu'r aelodau yng nghaffi Poppys ar brynhawn Mawrth, 9 Ebrill, i fwynhau te prynhawn i gloi tymor Cymdeithas y Chwiorydd am eleni. Estynnwyd croeso i bawb gan Meinir Fleming, a chafwyd prynhawn dymunol iawn wrth fwynhau'r bwyd a sgwrsio gyda'n gilydd.

### Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Estynnwyd croeso i Jane Aaron, Aberystwyth, i'r cyfarfod ar nos Lun, 15 Ebrill, a chafwyd ganddi hanes diddorol Sarah Jane Rees. Ganwyd Sarah Jane Rees yn Llangrannog yn 1839 ac roedd yn arloeswr mewn nifer o feysydd gan iddi fod yn athrawes Gymraeg, yn fardd, yn olygydd, yn brif forwr ac yn ymgyrchydd dirwest. Yn 1865, daeth yn enwog drwy Gymru gan mai hi oedd y wraig gyntaf i ennill gwobr farddonol yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Aberystwyth y flwyddyn honno, ac ar ôl hynny daeth yn fwy adnabyddus yn ôl ei henw barddol, Cranogwen. Yn dilyn ei llwyddiant cynyddodd ei phoblogrwydd, a byddai'n teithio ledled y wlad yn darlithio ar ran y Methodistiaid Calfinaidd, a bu'n darlithio yn Nhal-y-bont a Thaliesin. Erbyn hyn mae cerflun ffigurol o Cranogwen i goffáu ei bywyd wedi ei osod yn Llangrannog. Diolchwyd yn gynnes i Jane am hanes diddorol Cranogwen gan Carys Briddon a drefnodd y noson.


EICH GWAHODDIAD:

Y CINIO MAWR

MEHEFIN 2024

Dewch â'ch cymdogion at ei gilydd i rannu bwyd a sgwrs, ac i ddathlu eich cymuned chi.



I archebu pecyn dwyieithog am ddim ac i gofrestru eich digwyddiad ar y map, ewch i

y cinio mawr the big lunch

eden project

bit.ly/yciniomawr24

#YCINIOMAWR

# Ysgol Ta



Hyfforddiant Pêl Rwyd

### Doniau'n Denu

Dros y misoedd diwethaf mae'r ysgol wedi bod yn cynnal ymchwil i weld os yw cyd-gynllunio gweithgareddau gyda disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymrwymiad. Bob bore rydym yn cynnal gweithgareddau 'Doniau'n Denu' i gael y plant i gyrraedd yr ysgol yn brydlon ac ers y Pasg mae disgyblion Dosbarth Braich Garw wedi bod yn cyflwyno gweithgareddau i'w cyfoedion. Diolch i Blythe a Teal am y gweithdy Celf ac i Alys a Mari am drefnu hyfforddiant pêl rwyd.

### Ysgol Iach
### Cystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd

Aeth dau dîm o'r ysgol i gystadlu'n frwd yn erbyn plant o bob rhan o Geredigion ym mhencampwriaeth pêl-droed yr Urdd ar Gaeau Blaendolau. Fe wnaeth y ddau dîm gystadlu'n frwd drwy'r dydd gan ennill rhai o'u gemau. Roedd yn brofiad gwych i rai disgyblion Blwyddyn 4 gael y cyfle o gynrychioli'r ysgol am y tro cyntaf – da iawn bawb.



*Hyfforddiant Microbits*



*Gweithdy Monoprint Prosiect Teulu*



*Ymweliad garddwyr Cletwr*



*Plant Blwyddyn 6 yn edrych yn smart yn eu hwdis gan Gwmni Ceirios*



*Gwibdaith i Ganolfan Arddo Newmans*



*Y bois yn mwynhau gweithdy celf Blythe a Teal*

# l-y-bont



Tîm pêl-droed y merched




Timau pêl-droed yr ysgol

### Gwyl Bêl-droed Cylch Aberystwyth

Llongyfarchiadau i'r criw pêl-droed hefyd a oedd wedi cystadlu'n dda iawn yn erbyn ysgolion cylch Aberystwyth. Roedd pob un gêm yn agos iawn ac yn gyfle gwych i ymarfer y sgiliau pêl-droed eto. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r profiad arbennig o chwarae ar Goedlan y Parc hefyd.

### Ysgol Dechnolegol

Mae ysgolion Ceredigion yn ffodus iawn o gael cymorth Eryl a Kay gyda'n gwaith cymhwysedd Digidol. Y tro yma, Eryl ddaeth i'r ysgol i weithio gyda disgyblion Dosbarth Allt y Crib a dysgu'r plant sut i godio gwahanol synau gan ddefnyddio microbits. Roedd yn sesiwn ddifyr iawn ac fe wnaeth y plant i gyd ddysgu'n gyflym iawn.

## Ysgol y Gymuned

### Prosiect Teulu

Cafodd yr ysgol gyfle arbennig i fod yn rhan o Brosiect Teulu sydd i'w weld yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar hyn o bryd. Roedd hi'n hyfryd i gael cydweithio gyda'r artist Elin Crowley unwaith eto wrth iddi arwain y plant mewn gweithdy creu monoprint.

### Garddwyr Cletwr

Mae Dosbarth Mynydd Gorddu wedi bod yn dysgu llawr am blanhigion dros yr wythnosau diwethaf. Maent wedi bod yn cydweithio gyda Garddwyr Cletwr i wella gardd yr ysgol drwy blannu blodau a phlanhigion eraill yn y lloc. Diolch yn fawr i rieni'r ysgol am baratoi'r tir hefyd.Yn dilyn yr ymweliad, trefnwyd gwibdaith i Ganolfan Arddio Newman's i brynu mwy o blanhigion, cymaint oedd brwdfrydedd y plant! Diolch yn fawr i Mrs Nelmes am drefnu.

### RNLI

Yn flynyddol bellach, rydym yn derbyn sesiwn i'n hatgoffa ni o bwysigrwydd cadw'n ddiogel yn ystod misoedd yr haf wrth i ni fentro i'r traeth i fwynhau ein hunain. Cafodd y plant lawer o hwyl yn gwisgo'r dillad, ond roedd y neges i gadw'n ddiogel yn glir iawn yn enwedig a ninnau'n byw mor agos i'r môr. Gobeithio bydd y tywydd yn caniatáu i ni gyd fwynhau picnic ar lan y môr dros yr wythnosau nesaf.

### Eisteddfod yr Urdd

Da iawn i bawb wnaeth gystadlu yn adrannau Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd eleni – roedd graen da ar y gwaith.

### Clybiau ar ôl Ysgol

Rydym yn rhedeg nifer o glybiau ar ôl ysgol llwyddiannus iawn ar hyn o bryd, lle bod cyfle i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Ar nos Lun rydym yn cydweithio gyda Swyddogion Chwaraeon yr Urdd yng Ngheredigion i gynnal gweithdai aml chwaraeon, ar nos Fawrth, mae Bryn o BMO yn cynnal hyfforddiant pêl-droed ac ar nos Fercher a nos Iau mae Miss Eirian a Miss Kate yn cynnal ein Clwb ar ôl Ysgol ni. Diolch yn fawr i chi gyda am sicrhau profiadau cyfoethog i'r plant.

### Enwau'r Dosbarthiadau

Mae rhoi enwau lleol ar ei dosbarthiadau wedi ennyn sgyrsiau diddorol yn ddiweddar ac wedi cael sylw ar X (Twitter) ac yn y cylchgrawn Lingo mewn erthygl gan James January-McCann. Dyma'r enwau a ddewiswyd – Braich Garw, Mynydd Gorddu, Allt y Crib a Penbryn Pele. Tybed a oes gan rywun awgrym ar gyfer dosbarth arall?




*Helpu Tîm y Bad Achub*

# JOHN SOUTHWORTH HUGHES

*Yn seiliedig ar deyrnged angladdol John gan y gweinydd Nicola Dunkley, o gofiant John ei hun.*



Ganwyd John ar 16 Mawrth 1926 yn Birmingham i John William Hughes ac Elsie Southworth. Yn ei gofiant mae'n disgrifio sut roedd ei ddau riant yn reidio beiciau modur ac am blentyndod hapus iawn yng Nghaernarfon. Roedd yn mwynhau chwarae ar draethau'r Fenai a mynd i weld y ceffylau gwedd gwych lawr wrth yr iard siyntio ac erbyn hyn yn gwerthfawrogi'r rhyddid oedd gan blant y dyddiau hynny. Ysgrifennodd, "roeddwn i'n rhedeg i bob man, bob amser, felly yn y mabolgampau fe es am y ras filltir,. . . bachgen hŷn enillodd ond daliais i fynd. Des i'n ail ac ennill pâr o ddolennau llawes euraidd sydd dal gen i". Roedd wrth ei fodd yn cael mynd gyda'i gefnder Owen ar ei rownd laeth ar y penwythnos ac i fferm cefnder Bob yn Rhosbodrual lle byddai'n mwynhau llaeth enwyn ac yn mynd â llond dwrn o india corn adref i wneud popcorn ar raw dros y tân.

Yn 1938 symudodd y teulu i'r Amwythig ac enillodd John le yn Ysgol Amwythig. Roedd digon o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon ac roedd yn mwynhau pêl-droed a rhedeg yn arbennig. Ymunodd â Chadetiaid y Fyddin ac yna yr ATC, a arweiniodd at le ar gwrs Adran Llynges y Brifysgol yn Glasgow. Parhaodd ei hyfforddiant yn HMS Ganges, Barics Shotley ac yna drafft i HMS Royal Arthur yn Skegness. Arhosodd John yn y Llynges tan 1948, ar radd radar a "quarterdeck".

Roedd amgylchiadau'n golygu na allodd John wireddu ei freuddwyd o fod yn filfeddyg ond enillodd ddiploma mewn amaethyddiaeth yn Shuttleworth. Roedd y coleg 125 milltir o'i gartref ac roedd yn dychwelyd bob pnawn Gwener ar ei Royal Enfield 350 i weld Elizabeth ar ôl iddynt gwrdd yn 1948. Mewn tywydd oer byddai ei fam yn rhoi potel ddŵr poeth tu mewn i'w jerkin lledr ar gyfer y daith yn ôl ar nos Sul. Prynodd tad John fferm 198 erw iddo ar lethrau isaf y Long Mynd. Prynodd John dractor Fordson Major newydd, dwy fuwch, 30 o famogiaid Kerry ac ychydig o ddofednod ond yn anffodus bu farw tad John o fewn blwyddyn a gwerthwyd y fferm er lles ei deulu.

Priododd John ac Elizabeth yn 1952 a daethant i weithio yn Lerry Mills. Ganed eu mab cyntaf, Simon, yn 1953 ac erbyn hyn roedd John ar y ffordd i feistroli'r grefft o wehyddu. Roedd ganddo ffrind yn gweithio yn Nyasaland (Malawi erbyn hyn) ac arweiniodd amgylchiadau at John yn derbyn swydd yno fel Swyddog Da Byw a symudodd y teulu ifanc i Affrica. Dychwelodd Elizabeth adref i ofalu am ei mam a ganed eu hail fab, Nicholas, yma yn 1956. Roedd John wrth ei fodd yn Affrica ac yn siarad yn aml am ei amser yno, gan ddweud "Roeddwn i'n caru bywyd a gwaith yn Affrica, y ffordd o fyw, y cynnyrch a'r bobl," ond penderfynodd beidio ag adnewyddu ei gytundeb a daeth adref i'r felin yn 1957.

Roedd John yn mwynhau creu patrymau newydd a dechreuodd ddysgu gwehyddu â llaw. Bu'n gwehyddu carthenni; prynwyd peiriant gwau gwely dwbl ac roedd Elizabeth yn gwneud siwmperi hyfryd. Roedd ganddynt beiriant gwau sanau a bu John yn gwneud dwsinau gyda'r nos. Ganed eu mab ieuengaf, Toby, ym 1963 a'r un flwyddyn gwelwyd rhew mawr ac yna llifogydd pan olchwyd y bont a 3 chored i ffwrdd. Roedd popeth yn cael ei bweru gan ddŵr felly roedd yn felin bellach yn dawel. Disgrifia John osod injan ddisel newydd, ailadeiladu'r bont a'r gored uchaf. Gweithiodd ddydd a nos am wyth wythnos i fod yn barod ar gyfer busnes y tymor newydd. Mae amseroedd yn newid ac yn 1980 ddaeth masnachu i ben ond yn waeth byth, aeth Elizabeth, ei un gwir gariad, yn ddifrifol wael a bu farw yn 1982 yn 52 oed.

Yn y 70'au bu John yn pysgota o Aberystwyth gyda Nick ac yn awr, gydag anogaeth, cychwynnodd ei fusnes siarter ei hun. Ar ôl llawer o waith caled, chwys talcen a chymorth, roedd yn barod ar gyfer tymor 1984. Llwyddodd i wneud y busnes yn llwyddiannus, gan gael llawer o hwyl ar y ffordd, ennill record am bysgota siarcod a gwirfoddoli fel cwch meddygol ar gyfer yr Her Geltaidd, yn ogystal â chriwio ar longau eraill a hyd yn oed goroesi un yn suddo allan ar y môr! Dim ond am resymau iechyd roedd rhaid rhoi'r gorau iddi yn 78 oed.

Ar ôl ymddeol, mwynhaodd John wyliau teuluol yng Ngwlad Groeg, gydag ychydig o bysgota a llawer o fwyd da a heulwen. Bu'n aelod o glwb Golff y Borth am 70 mlynedd ac yn angerddol am y Prosiect Gweilch Dyfi a natur yn gyffredinol. Chwaraeodd cribbage, dominos a dartiau a sefydlodd Glwb Pysgota Tal-y-bont. Roedd wrth ei fodd yn mynd i'r dafarn – y Llew Gwyn a chwerw Banks bob amser. Roedd wrth ei fodd ag iaith, yn gwybod union ystyr geiriau a sut i'w defnyddio, gan siarad Cymraeg a Saesneg rhagorol.

Mae atgofion John yn destament i ddyn hynod o wydn, hyblyg, gweithgar, deallus a medrus. Addasodd ei hun a'i waith lawer amlach nag sy'n arferol i ddyn ei gyfnod, gan ddysgu sgiliau newydd gyda brwdfrydedd a gwneud i fentrau newydd lwyddo.

Cafodd John fywyd hir a llawn ac yn ei eiriau ei hun "Mae drysau wedi cau ac eraill wedi agor ond ar y cyfan rydw i wedi bodloni ar fy mywyd."

NR





# TÎM TALWRN TAL-Y-BONT

Ar ôl ymdrech lew, colli o drwch blewyn oedd ffawd Tîm Talwrn Tal-y-bont yn ail rownd Talwrn y Beirdd Radio Cymru eleni, wrth i'r Cŵps eu trechu mewn gornest yn yr Eagles Llanuwchllyn. Cafwyd llawer o hwyl wrth gystadlu fodd bynnag, a diolch i Gwenallt Llwyd Ifan, Anwen Pierce, Phil Thomas a Phil Davies am chwifio baner Tal-y-bont am flwyddyn arall.

Dyma ychydig o gynnyrch y ddwy rownd er mwyn i chi gael blas ar yr hwyl a'r safon.

### Cywydd: Yswiriant

(dywedodd Mark Drakeford mai polisi yswiriant yw bod yn rhan o'r Deyrnas Unedig)

Yn bur amal dan bremiwm
â'r holl aur o'n coffrau llwm
i'r asiant, gwariant ar goedd
a rifwyd dros ganrifoedd.
Ewyllys barus ei byd
bia'r môr, bro a moryd,
dŵr glaw'r ucheldir gloyw
daw o fawn cymuned fyw.
Hawlia awel a'i hawyr,
erwau dôl, ei glo a'r dur.
I dithau, fy nghymdeithas,
dylai am hyn dalu ma's.

Gwenallt

### Cân Ysgafn: Yr Ymchwiliad

Dŵr Cymru sy'n gofidio fod carthion heb ei waeth,
Yn llygru Aberystwyth a golchi nôl i'r traeth.
Cynhaliwyd sawl ymchwiliad i ffindio tarddle'r stinc,
Fe dwriwyd mewn baddondai, archwiliwyd dan sawl sinc.
Cywirwyd llu pibelli ond carthion brown a du
lifai yn ddiddiwedd fel siocled ych a fi.
Defnyddiwyd camra bychan i olrhain taith y cac,
O'r harbwr, dan y strydoedd, i bob pasej (ffrynt a bac).
Yn sydyn, daeth goleuni, y chwilio wnaeth ddwyn ffrwyth,
Fe welwyd criw o glerwyr yn brysur gollwng llwyth
O gerddi, lawr y toiled mewn tafarn yn y dre,
A chlywyd staff Dŵr Cymru yn gweiddi'n groch, 'Na Fe!'
Rôl ceibio dan palmentydd a thyllu nos a dydd,
O'r diwedd caed ffynhonnell dolur y cerddi rhydd.
Ar ôl yr holl ofidio roedd ateb nawr ar gael,
Ac arbenigwyr ddaeth ynghyd dan darth yr oglau gwael.
Adnoddau Naturiol Cymru wnaeth wahardd Tîm y Cŵps
Rhag fflysho mwy o gerddi a gollwng mwy o pŵps.

Phil D

### Trydargerdd: Nodyn i'r Glanhawyr

(eglwys Llanfihangel-yng-Ngwynfa)

Cyn rhoi'r clo clap haearn arni
a rhoi'r sein For Sale o'i blaen hi,
gwell i'w dôr gael dwstad handi,
er go brin y gwnaiff neb sylwi.

Anwen

### Pennill Ymson: Wrth aros am fws

Rwy'n fethu dreiglo am thoffi,
y feddal ddwi dim yn ei hoffi,
y nhrwynol sy'n lot mhwy yn wath,
rhaid i fi rhoi fwythau i'r cath.
Ond ble mae hi? Ddwi angen ei sws ...
"Fws, Fws, fws, fws fws, fws."

Phil T

### Cerdd ar fesur englyn milwr: Sgwrs Rhwng Dau

Sgwrs rhwng Gwenallt a Llinos Ann Edwards, Llanycefn, Sir Benfro ei fam-yng-nghyfraith bu farw yn ddiweddar

'Mae'n law dros Abertawe,
a niwl llwyd am ben y lle,
glaw o lid; goleuade'.'

*'Nid yw'r ddau gae'n wag o hyd,*
*llwyni golau'n llawn golud,*
*erwau byw ddaw'n ôl i'r byd.'*

'Ond hiraeth sy'n y tiroedd
hyn, eiddil yw'r mynyddoedd;
daear a'i galar ar goedd.'

*'Chwarddais a rhedais ar hyd*
*y lonydd, hawlio ennyd;*
*yn ifanc a hŷn hefyd.*

*Crwydra'r waun, cer ar dy rawd;*
*hyn yw dy fraint, câr dy frawd;*
*cloddiau blodau Parc-y-blawd.'*

Gwenallt

### Pennill Telyn

Tasai gen-i fil o erwau,
plannwn ddegwm yn goedlannau,
cadwn ddrysni, pebyll glampio;
ac un rhych i dyfu dato.

Gwenallt

### Englyn: Cragen

I aber fy mhryderon – daw moryd
a'i môr o obeithion
drwy adwy ei sibrydion
â sŵn doe'n ymson y don.

Anwen

### Cân Ysgafn: Canllawiau

Mae'n flwyddyn lecsiwn eto – meddyliwch! Fflipin hec,
Rhaid dweud y drefn cyn byddaf yn pechu'r Bî Bî eC,
Cans pan ddaw'n amser ymgyrch bydd rheolau fesul pwys
Yn rhwystro bois fel finnau rhag dwedyd dim o bwys.
Bydd dim modd slamo'r Tories am rhacso'r wlad i gyd
A gwneud ein teyrnas shimpil yn destun sbort drwy'r byd.
Ni fedrwn mewn etholiad feirniadu Starmer pinc,
Am olchi egwyddorion y cochion lawr y sinc.
Bydd dim modd gweiddi 'celwydd' ar Dim Libs, na fydd wir,
Na'u polisïau hyblyg sy'n newid fesul sir.
Bydd rheol rhag beirniadu y Blaid o Went i Fôn.
Ni fydd yr opsiwn niwclear yn bosib, 'nôl y sôn.
Bydd angen menig meddal cyn taflu dwrn neu ddau
At Wyrddion hunangyfiawn, unwaith mae'r drws 'di cau.
Pan welir propaganda yn cyrraedd rownd y rîl,
Gan ryw Brydeiniwr cibddall, rhaid tewi yn ei sgil.
Os gwelir Nige neu Boris, neu Liz yn gwneud cym bac,
Canllawiau fydd yn rhwystro pob bardd rhag bod yn grac.
Rwy'n sori os anghofiais i slamo'ch pleidiau chi –
Bydd rhestr llawn ohonynt ar safle'r BBC.

Phil D


Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

# Teulu Pugh Cymerau

Bu teulu Pugh, Plas Cymerau'n ddylanwad trwm ar ardal Eglwysfach am sawl cenhedlaeth. Y tro cyntaf i mi ddod ar eu traws 'roeddwn prin wedi dysgu cerdded. 'Roedd Mam wedi mynd â mi am dro ar hyd y lôn ger Fferm Melindwr pan ddaeth tractor, yn cael ei yrru'n wyllt, o gyfeiriad Cymerau. Ar gefn y tractor, lle byddai beiliau gwair yn cael eu cludo, 'roedd hen ŵr cecrus yr olwg, a'i gorff wedi ei orchuddio mewn blanced. ''Drycha. Major Pugh yw hwnna', meddai Mam. ''Dyw e ddim yn gallu cerdded ac ma Mr Roberts yn mynd â fe o le i le ar ei dractor'. Anelodd y tractor yn syth am y rhyd i groesi'r afon. Ond, yn y broses, daeth blanced yn hen ŵr yn rhydd gan syrthio'n swp i'r dŵr. Achosodd hyn i mi chwerthin yn uchel. 'Roedd y Major yn gynddeiriog. 'Tell that damned child not to be so bloody rude!' gwaeddodd. 'Yes Sir. Sorry Sir', ysgyrnygodd Mam, ond ymateb tra wahanol a roddodd o dan ei hanadl.



*Milwyr yn saliwito'r Cadfridog Lewis Pugh ar y prom yn Aberystwyth (canol y Pumdegau)*

Fel cadeirydd y Cyngor Plwyf, darganfyddodd fy nhad bod Plas Cymerau wedi'i adeiladu ar draws llwybr cyhoeddus. Ar ôl cryn dipyn o drafod, cytunodd y Major i greu llwybr newydd drwy'i ardd. Felly, pob Gwener y Groglith byddai 'nhad yn mynd â'm mrawd a minnau at ddrws y plas, nid i ofyn ond i ddweud wrth y Major ei'n bod yno i honni'n hawl i grwydro tir cyhoeddus. 'Roedd yn llawer mwy moesgar ar yr adegau hynny na phan gwrddais arno gyntaf.

Bu farw'r Major yng nghanol yn Pumdegau. O'r adeg honno ymlaen bu ymweliadau'i fab, y Cadfridog Lewis Pugh, â'r ardal yn fwy a mwy mynych. Fe deithiodd y byd gan ennill clod ac enwogrwydd am ei arwriaeth. Daeth un o'i amryw anturiaethau'n fyd-enwog trwy'r ffilm 'The Sea Wolves', gyda neb llai na Gregory Peck yn chwarae rhan yr arwr. 'Doedd Lewis Pugh ddim yn gwbl hapus gyda'r darluniad, oherwydd bod Peck wedi mentro mynd i'r gad heb wisgo tei. Er gwaethaf ei enwogrwydd, hogyn o'r plwyf oedd Pugh yn y bôn. 'Roedd yn hael gyda'i amser a'i arian er lles y fro. Ar eu teithiau gyda'r fyddin fe dynnodd ef a'i wraig lawer o ffilmiau o'r bobl, seremonïau a'r ardaloedd a ddaethant ar eu traws. Byddai'n defnyddio'r ffilmiau hyn fel cefndir i'r darlithoedd difyr a roddai yn y Stafell Haearn a mannau eraill i godi arian at atgyweirio eglwys y plwyf neu er fydd gwahanol elusennau. Ar un achlysur rhoddodd ddarlith ym Machynlleth i gefnogi ymgyrch fy nhad a dau o'i gydweithwyr, Ted Gates ac Oswald Humphries, i sefydlu brigâd cadlanciau Sant Ioan, ym Machynlleth a Chemaes. Ar ddiwedd y nos, ac yntau yn ei regalia llawn, fe wahoddodd fy mrawd i deithio adref yng nghefn ei gar swyddogol, gyda dau filwr Gurkha i'w gwarchod – profiad bythgofiadwy i fachgen un ar ddeg oed.



*Seren Affrica gyda'r clasp '1st Army' a dderbyniodd tad Aelwyn Pugh oddi wrth y Cadfridog Lewis Pugh*

Un bore, rhai wythnosau'n ddiweddarach gwelwyd yr un car yn aros o flaen ein cartref, Felin Garreg. Gyda'r ddau filwr yn sefyll yn stond i saliwtio, dyma'r Cadfridog yn camu allan a dod yn syth at y drws i ofyn am fy nhad. Ond 'roedd ef eisoes wedi mynd i'w waith. Eglurodd Lewis Pugh wrth Mam ei fod wedi clywed bod fy nhad wedi ennill Seren Affrica am ymladd yn Nhiwnisia a Moroco ond ei fod heb dderbyn y clasp '1st Army' 'roedd ganddo hawl iddo. Felly 'roedd y Cadfridog wedi mynd i'r drafferth o drefnu iddo gael y clasp. Dyna'r rheswm am ei ymweliad. Enghraifft dda oedd hon o'r cwrteisi a'r teimladrwydd oedd yn rhan anhepgor o'i bersonoliaeth. Yn anffodus, mae'r adroddiadau gan yr 'arbenigwyr' ar R.S.Thomas, gyda'u pwyslais ar yr anghydfod rhwng ddau ddyn ystyfnig wedi dallu gormod o bobl i rinweddau Lewis Pugh.

Er hynny, nid sant mohono. Wedi i ni symud o'r plwyf, difethwyd ymdrechion fy nhad i gadw'r llwybrau cyhoeddus ar y Foel ac yng nghyffiniau Cymerau ar agor. Erbyn marwolaeth Lewis Pugh 'roedd arwyddion 'Preifat' ar bron pob gât. Gwaeth na hynny, fe benderfynodd Cymdeithas Seren Byrma i adeiladu cofeb iddo ar un o fannau caru gorau'r plwyf!

Aelwyn Pugh

## Elin Jones AS



Dwi'n siŵr bo chi, fel minnau, yn falch o weld y gwanwyn yn dod a'i holl flagur a blodau, wyn a lloi - mae'n gyfnod prysur yng nghefn gwlad. Pob hwyl hefyd i bawb sydd wrthi'n paratoi i astudio eu harholiadau yn yr wythnosau nesaf.

Mae nifer ohonoch wedi bod yn cysylltu â mi i rannu eich gofidion am nifer o bynciau. Mae gofid mawr am gynigion ar gyfer cynllun peilonau trydanol yn ardal Llambed, er mwyn galluogi cludo ynni cynaliadwy o'r melinau gwynt newydd i'r grid cenedlaethol. Mi rydw i a Ben Lake AS yn parhau i fynegi i'r cwmnïau pwysigrwydd rhoi'r gwifrau o dan ddaear, yn ogystal â phwysigrwydd sicrhau buddiannau o'r melinau i'r cymunedau o'u cwmpas. Roeddwn yn falch o glywed bod nifer ohonoch wedi lleisio eich barn drwy'r ymgynghoriad hefyd.

Dwi wedi gofyn am ddiweddariad ar wasanaethau bysus y T5, fydd gobeithio yn cynnig amserlenni newydd sy'n gwasanaethu peth o'r ardaloedd fu'r Cardi Bach yn teithio drwyddynt. Gobeithio cawn mwy o wybodaeth cyn hir. Ac mae llygedyn o obaith i gyn-deithwyr gwasanaeth y Bwcabus, a ddaeth i ben ym mis Hydref. Rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth bysus cymunedol fydd gobeithio yn gwasanaethu nifer o ardaloedd y Bwcabus. Mae Dolen Teifi wrthi'n gweithio ar gynlluniau manwl, a gobeithio bydd mwy o newydd i ddod cyn hir.

Cefais y fraint o fynychu Arddangosfa Prosiect Teulu yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth yn ddiweddar. Prosiect oedd hwn ble bu Elin Crowley yr argraffwraig o ochrau Machynlleth yn gweithio gyda phedwar teulu lleol i guradu casgliad o waith o'u dewis o Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol ac Ysgol Gelf Aberystwyth, gyda'r bwriad o ddenu mwy o deuluoedd i fwynhau'r celfyddydau gweledol. Mi roedd yn wledd i'r llygaid.

Yng Nghaerdydd mae wedi bod yn gyfnod o newid wrth i'r Prif Weinidog newydd Vaughan Gething AS gymryd yr awenau gan Mark Drakeford. Mae hyn wedi golygu peth newid i Weinidogion y Llywodraeth, ac erbyn hyn maent yn setlo i'w llwythi gwaith newydd.

# Gobaith Mawr y Ganrif

**Robat Gruffudd**
**Y Lolfa**
**£9.99**




Bydd unrhyw un sy'n gyfarwydd â nofelau Robat Gruffudd yn troi'n awchus at ei gyfrol ddiweddaraf gan wybod taw yr hyn fydd yn eich disgwyl fydd plot diddorol, deialog lliwgar a bywiog a llwyth o olygfeydd gogleisiol. Nid ar chwarae bach mae ennill Gwobr Goffa Daniel Owen ddwy waith ac mae pedigri yr awdur yn amlwg wrth ddarllen ei gyfrol ddiweddaraf.

Ni chewch eich siomi wrth droi tudalennau 'Gobaith Mawr y Ganrif' ac yn britho'r cyfan ceir islais o dynnu blew o drwyn llawer o sefydliadau cenedlaethol Cymru a'r unigolion sy'n gweithio iddynt.

Mae'r plot yn troi o gwmpas digwyddiadau sy'n cychwyn ar noson seremoni BAFTA, lle mae Menna Beynon, Pennaeth Corff yr Iaith Gymraeg, yn cael ei bygwth â blacmel gan gyn-gariad iddi o ddyddiau Coleg Aberystwyth. Dyma nofel ysgafn felly a ddisgrifiwyd gan yr awdur fel 'nofel traeth' ond sydd hefyd yn llawn tensiwn wrth symud rhwng y Gymru gorfforaethol a Chymru fwy gwerinol Pentawe, gan gynnig darlun ehangach o fywyd crachach Cymraeg Caerdydd.

Ar gychwyn y llyfr ceir y datganiad arferol sy'n nodi 'Mae unrhyw debygrwydd i sefyllfaoedd, sefydliadau neu bersonau gwirioneddol yn anfwriadol a damweiniol'. Gallaf ddychmygu Robat yn claddu ei dafod yn ddwfn yn ei foch wrth gynnwys y geiriau hyn gan fod enwau rhai o'r sefydliadau yn y nofel yn debyg iawn i rai go iawn, megis Corff yr Iaith Gymraeg, Stage Wales, Sianel Cymru ag ati ac weithiau mae'r ffin yn denau dros ben rhwng dychymyg yr awdur a'r byd go iawn wrth i'r stori ddatblygu.

Lleolir y nofel yn y flwyddyn 2008 adeg y cwymp ariannol, a hynny yn bennaf yng Nghaerdydd, ac mae Robat ei hun, fel brodor o Abertawe, yn cyfaddef iddo defnyddio llawer o'r We i ddod o hyd i wybodaeth am ein prifddinas. Mae'n amlwg hefyd ei fod wedi gwneud llawer o ymchwil ar-lein ar y mathau o ddiodydd egsotic a yfir yn gyson gan drigolion y ddinas honno. Go brin y ceir unrhyw olygfa ddi-alcohol. Mae'n syndod nad yw'r holl gymeriadau wedi eu piclo cyn diwedd y llyfr.

Yn y lansiad yn Aberystwyth pwysleisiwyd na ddylid ceisio dod o hyd i unrhyw neges gudd. yn y nofel. Ar y llaw arall bydd darllenydd o'r gorllewin pell yn synhwyro fod cefnu ar gefn gwlad er mwyn ymelwa ar gefn y Gymraeg yn y ddinas fawr ddrwg yn thema sy'n mudferwi o dan yr wyneb. Efallai y gellid fod wedi ymhelaethu ar hyn yn fwy er mwyn cryfhau'r stori.


Wedi dweud hynny mae'r plot fel ag y mae yn eich denu i ddarllen tan y diwedd er mwyn darganfod ffawd y cymeriadau, ac os na chawn dywydd digon braf i'ch galluogi i fynd â'r nofel i'r traeth agosaf yna rhowch y nofel naill ochr er mwyn cael mwynhad o flaen y tân yn nhrymder gaeaf.

DPhD

# Sesiwn Nos Wener



Y rhoces o Sir Benfro Lowri Evans, a'i phartner Lee Mason oedd yn diddanu ffyddloniaid Sesiwn Nos Wener ddiwedd Ebrill. Roedd Lowri ar daith yn hyrwyddo CD newydd ac fe swynwyd y gynulleidfa gyda'i pherfformiad cartrefol a didwyll. Clywyd caneuon newydd yn ystod hanner cyntaf y noson a rhai o hen ffefrynnau Lowri ar ôl yr egwyl. Yr ydym yn ffodus bod gennym gyfle fel hyn i glywed cantorion yn perfformio'n fyw mor agos i gartref. Nid oes digwyddiad ym mis Mai ond beth am ddod i gefnogi sesiwn olaf y tymor nos Wener 28 Mehefin pan fyddwn yn croesawu Mari Mathias, y gantores o Dalgarreg. Hefyd, os oes gennych awgrymiadau ar gyfer rhaglen y tymor nesaf anfonwch air at y pwyllgor.






# Chwaraeon



## DWY FFEINAL!

Bydd Clwb Pêl-droed Tal-y-bont yn chwarae mewn dwy rownd derfynol yn ystod y diwrnodau nesaf.

Adroddwyd yn rhifyn Ebrill i'r tîm guro Borth i gyrraedd rownd derfynol Cwpan Len a Julia Newman a bellach bydd y bechgyn yn chwarae yn rownd derfynol Cwpan y Cynghrair wedi iddynt faeddu Corris yn y rownd gyn-derfynol ar 1 Mai.

Dyma oedd canlyniad gorau'r tymor (hyd yn hyn!) gan nad oedd Tal-y-bont wedi ennill yr un gêm yn erbyn tîm cryf Corris ers tro. Aeth Tal-y-bont ar y blaen yn yr hanner cyntaf gyda goliau gan Ioan Joseph a James Graham ac yn yr ail hanner, gyda Corris i lawr i ddeg dyn, llwyddwyd i gadw llechen lân a sicrhau'r fuddugoliaeth. Uchafbwynt yr ail hanner oedd arbediad Jamie Barron o gic o'r smotyn gyda saith munud yn weddill o'r gêm.

Cynhelir y ddwy ffeinal ar 14 a 20 Mai ar Gae'r Piod, Bow Street a'r gwrthwynebwyr yn y ddwy gêm fydd clwb y Bont. Pob lwc i Dal-y-bont. Bydd adroddiadau llawn yn y rhifyn nesaf





Llongyfarchiadau i Mari Evans, Glanaber, Talybont ar ennill y 5ed wobr fel rhan o dîm Rheidol yn y gemau Clwb Merlod yng Nghaerfyrddin. Llongyfarchiadau hefyd i Cadi Wen Lloyd-Williams ar ddod yn chweched gyda'r tîm iau. Da iawn ferched!



*Llongyfarchiadau i Dylan Benjamin a Megan Jones ar gwblhau y Dyfi Dash Sprint Tri yn Machynlleth ar Ddydd Sul 21 Ebrill er mwyn codi arian i'r elusen CALM.*




Fe fuodd Becca Fflur o Dôl Pistyll Tal-y-bont yn cystadlu ym mhencampwriaethau clybiau marchogaeth Prydain yn Grantham lle daeth yn 2il. Mae Bertie yn gyn-geffyl rasio a gystadlodd yn yr helfa genedlaethol ac mae Becca wedi ei ailhyfforddi i fod yn geffyl dressage ac yn ystod y gystadleuaeth hon cafodd Becca a Bertie sgôr uchel o 75. Llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant.





